**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 3ydd o Chwefror 2026**

| | |
|---|---|
| **Presenoldeb:** | Cadeirydd: Carys Edwards<br>Is-gadeirydd: Rhys Parry |

**Cynghorwyr:** Menna Baines, Elwyn Jones, Edgar Wyn Owen, Geraint Parry, Arwyn Herald Roberts, Richard Glyn Roberts, Huw Rowlands, Ioan Thomas ac Elfed Wyn ap Elwyn

**Aelodau Lleyg**: Eifion Jones, Dewi Lewis, Peter Barnes a Paul Millar-Mills

**Swyddogion:** Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Ffion Madog Evans (Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau), Luned Fôn (Rheolwr Archwilio), Delyth Jones-Thomas (Rheolwr Buddsoddi), Caren Rees Jones (Cyfrifydd Grŵp - Cyfalaf a Rheolaeth), David Lloyd Williams (Cyfrifydd Grŵp), Heledd Thomas (Uwch Gyfrifydd - Adnoddau a Chorfforaethol), Nel Povey ac Alaw Jones (Cynllun Yfory - Hyfforddai Proffesiynol Cyllid a Chyfrifeg), a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:** Cyng. Huw Wyn Jones (Aelod Cabinet Cyllid)

| | |
|---|---|
| Eitem 11: | Dylan Owen (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), a Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg), |
| Eitem 12: | Arwel Evans (Rheolwr Caffael) |
| Eitem 13: | Lora Gwawr (Archwilio Cymru), Dewi Wyn Jones (Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor) a Colleen Pritchard (Rheolwr Digartrefedd a Chefnogaeth) |

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Angela Russell a Meryl Roberts

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Pryder nad oes capasiti digonol gan yr Uned Archwilio Mewnol i gwrdd â disgwyliadau'r Cyngor

**PENDERFYNIAD:**

- **Derbyn adroddiad gan y Pennaeth Cyllid yn amlygu'r sefyllfa a'r risgiau posib**
- **Angen sicrwydd bod y gwaith sydd angen ei gyflawni gan Archwilio Mewnol yn parhau i fod o safon uchel**

**4. GWEITHREDU PENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR**

Cyflwynwyd adroddiad oedd yn rhoi amlinelliad o sut mae adrannau'r Cyngor wedi ymateb i benderfyniadau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fel bod modd i'r Aelodau gael sicrwydd bod eu penderfyniadau yn cael sylw. Nodwyd bod yr adroddiad yn rhoi cyfle i'r Aelodau ystyried y penderfyniad a wnaed gyda bwriad o ddileu'r eitem / penderfyniad pan fydd y weithred wedi cwblhau.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn cynnwys yr adroddiad**

## 5. CYLLIDEB 2026/27

Cyflwynwyd adroddiad gan Aelod Cabinet Cyllid yn nodi fod y Cyngor wedi derbyn cynnydd grant Llywodraeth o 4.1% ar gyfer 2026/27, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £10.4m mewn ariannu allanol. Adroddwyd y byddai nifer o ffactorau yn creu pwysau gwariant ychwanegol ar wasanaethau'r Cyngor yn 2026/27 gyda'r angen i gynyddu gwariant o £23.3m i gwrdd â phwysau ar gyllidebau'r gwasanaethau. Gyda phwysau mewn galw ar wasanaethau yn ogystal â chwyddiant uchel, nodwyd y bydd argymhelliad i gynnyddu Treth Cyngor o 5.32% i gyflawni'r amcan eleni gyda rhagolygon yn awgrymu bydd pwysau pellach wrth anelu i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2027/28.

Amlygwyd mai rôl y Pwyllgor oedd sicrhau bod y Cabinet a'r Cyngor yn glir o'r ffeithiau oedd wedi eu cyflwyno iddynt fel bod y penderfyniad fydd yn cael ei gymryd ganddynt yn seiliedig ar wybodaeth gadarn.

Gwahoddwyd y Pennaeth Cyllid yn ei rôl fel swyddog cyllid statudol i gyflwyno'r wybodaeth, i fynegi ei farn a manylu ar gadernid yr amcangyfrifon oedd yn sail i'r gyllideb ynghyd a'r risgiau posib a'r camau lliniaru.

Amlygodd y bydd y Cabinet (cyfarfod 10/02/26) yn argymell i'r Cyngor Llawn (05/03/26) i sefydlu cyllideb o £379,866,050 ar gyfer 2026/27 i'w ariannu drwy Grant Llywodraeth o £264,009,390 a £115,856,660 o incwm o'r Dreth Cyngor (sydd yn gynnydd o 5.32%) a sefydlu rhaglen gyfalaf o £40,179,430 yn 2026/27.

Eglurwyd bod Gofynion Gwario Ychwanegol wedi eu hystyried yn y gyllideb ac amlygwyd y meysydd hynny;

- Chwyddiant Cyflogau o £8.3m - amcan gynnydd cytundeb tâl 2026/27 4% ar gyfer athrawon a 3.4% ar gyfer gweddill y gweithlu
- Chwyddiant cyflenwyr £6,075,390
- Cynnydd mewn Ardollau i gyrff perthnasol - £528,810
- Pwysau ar Wasanaethau - argymell cymeradwyo bidiau gwerth £9,910,580 am adnoddau refeniw parhaol ychwanegol a gyflwynwyd gan adrannau'r Cyngor i gwrdd â phwysau anorfod ar eu gwasanaethau, a bidiau cyfalaf gwerth £840,010
- Gwrthdroi Grant Yswiriant Gwladol Cyflogwr 2025/26 - £3,632,950

Yng nghyd-destun y cynlluniau arbedion, cyfeiriwyd at gynlluniau arbedion gwerth £320,500 oedd yn deillio o raglenni arbedion blaenorol ac eisoes wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor i leihau'r bwlch ariannol.

Adroddwyd y byddai angen cyfarch gweddill y bwlch drwy'r Dreth Cyngor ac o ganlyniad bydd y Cabinet yn argymell i'r Cyngor Llawn i godi'r dreth 5.32% er mwyn diwallu'r pwysau ar wasanaethau wrth osod cyllideb gytbwys.

Cyfeiriwyd at y gwaith gofynnol a wnaed i adrodd ar gadernid yr amcangyfrifon sydd yn sail i'r gyllideb, ac wedi ystyried yr holl risgiau a'r camau lliniaru roedd y Pennaeth Cyllid o'r farn fod Cyllideb y Cyngor ar gyfer 2026/27 yn gadarn, yn ddigonol a chyraeddadwy.

Diolchwyd am y cyflwyniad ac i'r staff am eu gwaith. Calongol oedd gweld bod y sefyllfa yn well na'r hyn oedd wedi ei amcangyfrif o ganlyniad i gynnydd grant Llywodraeth Cymru.

Sylwadau yn codi o’r drafodaeth ddilynol:

- Bod gorwariant adrannau yn parhau yn bryder
- Bod angen cefnogi darpariaeth gofal y Sir - bod defnyddio darpariaeth allanol yn gostus. Angen i’r Cyngor roi cynlluniau darpariaeth fewnol mewn lle fyddai yn arwain at arbediad yn y dyfodol
- Rhestr bidiau cyfalaf - cynllun i ymestyn maes parcio Ysgol y Faenol. Cais gan yr Aelod Lleol am fanylion pellach ynglŷn â rhesymau dros lithrad amser (dyddiad gwreiddiol 2021) a’r costau ynghlwm â’r llithriad
- Datganiad y Swyddog Cyllid - ‘anochel bod y gyllideb yn cynnwys elfen o risg o ragdybiaethau’ ... a oes cynlluniau mewn lle petai ostyngiad yng nghasgliadau premiwm tai, ond cynnydd yn y galw am adeiladu tai?
- Awgrym i gyflwyno gwybodaeth am dreth y Cyngor mewn gwerth ariannol (£) yn hytrach na chanran (%) yn unig

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â’r gostyngiad pensiwn a pham bod penderfyniad wedi ei wneud i gymryd yr arbediad o £3miliwn mewn un flwyddyn yn hytrach na £1 miliwn dros dair blynedd, nodwyd mai’r dewis oedd lleihad o 1% bob blwyddyn neu gymryd yr arbediad o £3 miliwn yn llawn. Ystyriwyd mai dyma oedd yr opsiwn orau gyda phosibilrwydd y bydd mwy na £3 miliwn oherwydd nad oedd y ffigyrau terfynol wedi eu rhyddhau.

Mewn ymateb i gwestiwn yn ymwneud a’r arian ychwanegol a dderbyniodd Cyngor Gwynedd gan Llywodraeth Cymru ac os oedd wedi gwella safle y Cyngor yn y tabl dyraniad fesul Awdurdod, a pha wahaniaeth fyddai'r arian yn ei wneud i Wynedd, nodwyd nad oedd y dull dyrannu wedi newid, ac felly Cyngor Gwynedd yn parhau yn safle 20 allan o 22. Ategwyd bod cyfanswm cyfradd cynnydd setliad ariannol Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Cymru yn 4.5% tra bod Cyngor Gwynedd wedi derbyn llawr o 4.1%. Er hynny, yr arian ychwanegol yn gymorth i ardaloedd gwledig, i gyllidebau adrannau sydd dan bwysau ac i ryddhau pwysau o orfod gweithredu arbedion ar gyfer 2026/27.

Mewn ymateb i sylw bod Cyngor Gwynedd yn codi llai o dreth cyngor na Chynghorau cyfagos a Chynghorau cyfagos yn talu gwell cyflogau i staff ac os felly, a yw hyn yn gwneud Cyngor Gwynedd yn awdurdod drud i’w redeg, nodwyd bod gwraidd y mater yn un hanesyddol ac yn mynd yn ôl i 1996, pan ailstrwythurwyd Cyngor Gwynedd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Ar y pryd, gosodwyd gwaelodlin / fformiwla ddyrys ar gyfer gwariant gyda nifer o gydrannau yn plethu ffactorau unigol megis poblogaeth, natur poblogaeth, oed, a thirwedd i gynnwys rhai.

Yng nghyd-destun y nifer o Gynghorwyr sydd gan y Sir, ynghyd ar nifer Aelodau Lleyg, a pham nad oedd cyfanswm eu cyflogau yn ymddangos ar y gyllideb, nodwyd bod y swm wedi ei gynnwys yn y gyllideb, ond nid yn yr adroddiad blaen. Ategodd bod nifer Cynghorwyr fesul Awdurdod yn cael ei benderfynu gan gorff allanol.

Yng nghyd-destun dyraniad cyllid ar gyfer cefnogi a datblygu’r economi yng Ngwynedd a chynlluniau i ddenu gwaith i’r Sir, nodwyd bod cyllideb ar gyfer ariannu tîm craidd yr Adran Economi, ond bod cynlluniau cyfalaf a ffynonellau ariannol eraill ar gael ar gyfer gwariant. Ategwyd bod Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd hefyd yn arwain ar y Cynllun TWF.

Yng nghyd-destun risg a sut yr oedd risg yn cael ei gyfrifo wrth osod y gyllideb, nodwyd bod sefyllfa risg yn un hyblyg sydd yn cael ei fonitro yn rheolaidd, ond petai gostyngiad bach mewn cyfrifo risg byddai arbediad bychan posib ymhen blynyddoedd.

Amlygwyd pryder bod cronfa arian wrth gefn yn lleihau a bod y ganran ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yma yn cynrychioli tua 1.3% o wariant refeniw gros y Cyngor. Pwysleisiwyd nad yw’r swm yn y gronfa wedi gostwng, ond ei fod wedi lleihau fel canran o wariant y Cyngor dros y blynyddoedd diwethaf gan nad oes arian wedi ei ychwanegu iddo chwaith. Ategwyd

bod y Cyngor yn adolygu'r Strategaeth Ariannol ac yn bwriadu gweithredu ymarferiad cynaeafu.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â bwriad i ddatblygu / gwella darpariaethau Cartrefi Preswyl yng Ngwynedd ac os oedd cynlluniau ar y gweill i sicrhau bod yr adeiladau yn addas i bwrpas, nodwyd bod y Cyngor wedi comisiynu Housing LIN Cymru i ymchwilio i sefyllfa anghenion poblogaeth y Sir ac y bydd adroddiad o'r canfyddiadau i'w ddisgwyl ymhen rhyw 6 wythnos.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnwys**
- **Derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol**
- **Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo Cyllideb 2026/27 yn eu cyfarfod 10/02/26**
- **Diolch i'r Adran Cyllid am y gwaith trylwyr o baratoi'r Gyllideb**

- **Sefyllfa gorwariant yn bryderus**
- **Pryder bod y gronfa wrth gefn yn lleihau – croesawu ymarferiad cynhaeafu**
- **Cynlluniau datblygu / gwella darpariaethau Cartrefi Preswyl yng Ngwynedd - cais i ganfyddiadau ymchwiliad Housing LIN Cymru gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor**

Nodyn:

- Rhestr bidiau cyfalaf - cynllun i ymestyn maes parcio Ysgol y Faenol. Cais gan yr Aelod Lleol am fanylion pellach ynglŷn â rhesymau dros lithrad amser (dyddiad gwreiddiol 2021) a'r costau ynghlwm â'r llithriad
- Awgrym i gyflwyno gwybodaeth am dreth y Cyngor mewn gwerth ariannol (£) yn hytrach na chanran (%) yn unig
- Datganiad y Swyddog Cyllid - 'anochel bod y gyllideb yn cynnwys elfen o risg o ragdybiaethau' ... a oes cynlluniau mewn lle petai ostyngiad yng nghasgliadau premiwm tai, ond cynnydd yn y galw am adeiladu tai?

## 6. STRATEGAETH GYFALAF 2026/27 (YN CYNNWYS STRATEGAETH BUDDSODDI A BENTHYG)

Cyflwynwyd y Strategaeth gan y Rheolwr Buddsoddi. Nodwyd bod y Strategaeth yn rhoi trosolwg ar weithgareddau Cyfalaf a Rheolaeth Trysorlys y Cyngor am y flwyddyn 2026/27, gan ategu bod yr Aelodau wedi cael gwahoddiad i gyflwyniad diweddar gan yr ymgynghorwyr ariannol, Arlingclose yn egluro'r manylder tu ôl i'r strategaeth mewn modd dealladwy a chynhwysfawr.

Cyfeiriwyd at drosolwg o'r gweithgareddau cyfalaf a tynnwyd sylw bod y Cyngor yn bwriadu gwneud gwariant cyfalaf o £40.2miliwn yn 26/27 gyda'r prif gynlluniau wedi ei rhestru yn yr adroddiad ynghyd a'r ffynonellau ariannu. Nodwyd mai'r ffynonellau allanol yn bennaf yw Llywodraeth Cymru ac adnoddau Cyngor Gwynedd yw'r cronfeydd gyda gweddill o'r arian yn dod trwy fenthyciad fydd yn cael ei dalu nôl dros nifer o flynyddoedd, fel arfer o adnoddau refeniw neu o incwm gwerthiant asedau sydd yn gyson gyda gweithred y blynyddoedd blaenorol. Golygai hyn y bydd y dangosydd - Gofyn Cyllido Cyfalaf y Cyngor, yn £189.8 miliwn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 26/27, sef y lefel y dylai benthyg tymor hir y Cyngor aros odditano.

Yng nghyd-destun y Strategaeth Fenthyca, amlygwyd yn ddiweddar nad oes gofyn benthyca tymor hir wedi bod, dim ond tymor byr ar gost isel dros ddiwedd y flwyddyn ariannol; bydd hyn am barhau gyda dim benthyca tymor hir yn cael ei ragweld ar gyfer gweithgareddau Cyngor Gwynedd, a bod dyled y Cyngor yn aros o dan y Gofyn Cyllido Cyfalaf.

Cyfeiriwyd at y Meincnod Ymrwymiadau sydd bellach yn cael eu hadrodd yn chwarterol i'r Pwyllgor. Bydd y Cyngor yn disgwyl i'w fenthyciadau fod yn uwch na'i feincnod ymrwymiad hyd ar 2026 oherwydd bod gan y Cyngor lefel uchel o reserfau.

Yng nghyd-destun Strategaeth Buddsoddi, nodwyd mai polisi'r Cyngor yw blaenoriaethu diogelwch a hylifedd dros gynnyrch i sicrhau bod arian ar gael i dalu am wasanaethau'r Cyngor. Nodwyd bod symiau yn cael eu cadw drwy'r adeg i sicrhau hylifedd parhaus.

Cyfeiriwyd at rheolaeth risg a llywodraethu ynghyd â manylder ymrwymiadau tymor hir y Cyngor e.e., unioni diffyg y Gronfa Bensiwn, ac effaith o'r costau ariannu i'r llif arian lle gwelir bod y ganran yn isel ac yn eithaf cyson gyda blynyddoedd blaenorol. Cadarnhawyd hefyd bod y wybodaeth a sgiliau perthnasol gan y swyddogion a chadarnhad mai Arlingclose sydd yn darparu gwasanaeth ymgynghorwyr ariannol i'r Cyngor.

Gofynnwyd i'r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r wybodaeth a'r risgiau a chefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r strategaeth i'r Cyngor llawn am gymeradwyaeth ar y 5ed o Fawrth 2026

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol**
- **Cefnogi bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r Strategaeth i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth ar y 5ed o Fawrth 2026**
- **Bod cyflwyniad calonogol gan Arlingclose, Ymgynghorwr Rheolaeth Trysorlys y Cyngor (30-01-2026) wedi bod yn fuddiol iawn, ac wedi rhoi hyder a sicrwydd i'r Aelodau bod y Cyngor ar y trywydd cywir**

**7. CYNNYRCH ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan Reolwr Archwilio Mewnol yn diweddaru'r Pwyllgor ar waith Archwilio Mewnol am y cyfnod o 29 Medi 2025 hyd 25 Ionawr 2026. Amlygwyd bod 21 o Adroddiadau am Archwiliadau Cynllun Gweithredu 2025/26 wedi eu cwblhau gyda dau gynllun yn dangos lefel sicrwydd uchel, naw ohonynt yn dangos lefel sicrwydd digonol a deg yn dangos lefel sicrwydd cyfyngedig. Ategwyd bod 15 cynllun ar y gweill ar Ionawr 25ain 2026.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau:

- Yn derbyn bod diffyg adnoddau yn cael effaith ar wasanaethau, ond yn gyffredinol bod nifer o'r diffygion, yn enwedig ym maes Gofal Anableddau Dysgu a Chartrefi Preswyl a Dydd, yn gamgymeriadau mewn cyflawni prosesau yn gywir.
- Pwy sydd yn gyfrifol am yr atebolrwydd? Pwy yw'r person cyfrifol?
- Yn teimlo rhwystredigaeth nad oes gwelliant amlwg mewn rheoli a chynnal cartrefi gofal – disgwyliadau ddim yn cael eu cyfarch
- Yn derbyn yr argymhellion, er angen sicrwydd bod sylwadau Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried. Y sefyllfa angen sylw pellach.
- Archwiliad Coed yn Syrthio; coed risg uchel – oes angen nodi 'amodi cyfyngiadau adnoddau' fel rheswm dros beidio ymateb? Dylai diogelwch y cyhoedd fod yn flaenoriaeth lle bynnag mae'r risg
- Bod angen parhau i gadw llygad ar y cynlluniau

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd Rheolwr Archwilio Mewnol mai gwaith Archwilio Mewnol yw amlygu'r risgiau a thystiolaethu bod trefniadau mewn lle, ac mai perchnogaeth yr

Adrannau yw’r camau gweithredu. Ym maes Gofal, nodwyd bod y pwysau cynyddol yn cael eu cydnabod (diffyg adnoddau, cyflogau, gwariant taliadau i asiantaethau), a bod cwestiynau yn cael eu gofyn ynglŷn â be all ei wneud i liniaru'r risgiau hyn. Ategodd byddai galw Gweithgor Gwella Rheolaethol yn gyfle da i drafod y sefyllfa mewn manylder a chael gwell dealltwriaeth. Ategodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod rhai o’r agweddau yn cael eu gweithredu a bod canfyddiadau arolwg diweddar i ddarpariaeth gofal preswyl Tan y Marian gan Arolygaeth Gofal Cymru (05-09-26) wedi bod yn dda iawn, ac nad oedd argymhelliad wedi ei gynnwys yn yr arolwg hwnnw. Er hynny, derbyniwyd bod Archwilio Mewnol yn edrych ar bethau gwahanol (elfennau gweinyddol) a bod angen sicrywdd bod darlun llawn o’r sefyllfa yn cael ei adlewyrchu.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn a defnydd staff asiantaeth, nodwyd bod staff asiantaeth yn cael eu defnyddio, ac er bod ymgais yn cael ei wneud i osgoi defnyddio staff asiantaeth oherwydd y gost uchel, bod y Cyngor yn cael ei roi mewn sefyllfa o orfod gwneud ar adegau.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad a chefnogi’r gweithrediadau sydd eisoes wedi eu cytuno gyda’r gwasanaethau perthnasol**
- **O ganlyniad i ddiffyg gwelliant yn y maes gofal preswyl mewn trefniadau addas ar gyfer rheoli'r cartrefi yn briodol a diffyg cydymffurfiaeth gyda phrosesau rheolaethol, y Pwyllgor angen sicrwydd bod sylwadau Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried. Y sefyllfa angen sylw pellach.**

## 8. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2025/26

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yn diweddaru’r Pwyllgor ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau Cynllun Archwilio Mewnol 2025/26 Cyfeiriwyd at statws y gwaith ynghyd a’r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Amlygwyd bod 54%, allan o’r 50 archwiliad unigol yng nghynllun diwygiedig 2025/26, bod 27 wedi ei ryddhau yn derfynol/cwblhau neu wedi cau.

Yn unol ag arfer gorau a Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang, nodwyd bod y Cynllun yn destun adolygiad parhaus i sicrhau ei fod yn parhau’n gyfredol ac yn adlewyrchu newidiadau yn y busnes. I’r perwyl hyn, mae’n ofynnol bod y Cynllun Archwilio yn hyblyg, yn cael ei adolygu a’i ddiweddaru’n barhaus, ac y bydd cynnal archwiliadau yn ddibynnol ar asesiad amserol o risgiau / blaenoriaethau ac unrhyw ddatblygiadau neu risgiau newydd a ddaw i’r amlwg.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad**

## 9. SIARTER ARCHWILIO MEWNOL

Yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) rhaid llunio Siarter Archwilio Mewnol gyda chynnwys y Siarter yn cyfarch Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol a’r Cod Ymarfer ar gyfer Llywodraethu Archwilio Mewnol yn Llywodraeth Leol y DU (y Cod) a ddarparwyd gan CIPFA i gefnogi awdurdodau i sefydlu eu trefniadau archwilio mewnol a darparu goruchwyliaeth a chefnogaeth ar gyfer archwilio mewnol.

Eglurwyd bod y Cod yn nodi mai prif weithredwr / rheolwr archwilio mewnol sydd â chyfrifoldeb dros baratoi siarter sy'n cydymffurfio â GIAS yn sector cyhoeddus y DU ac y

dylai'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio cael ei fodloni ei fod yn cwmpasu trefniadau llywodraethu ar gyfer archwilio mewnol. Ategwyd bod rhaid i'r Siarter gynnwys elfennau sy'n sicrhau swyddogaeth wedi ei diffinio'n glir ac effeithiol - **mandad** sy'n nodi'n glir bwrpas a chenhadaeth y swyddogaeth archwilio mewnol; bod **diffiniadau** o'r termau 'bwrdd' ac 'uwch reolwyr', at ddibenion y swyddogaeth archwilio mewnol a bod y term **Sefyllfa Sefydliadol** yn diffinio sefyllfa archwilio mewnol o fewn y sefydliad, gan sicrhau bod ganddo awdurdod ac annibyniaeth ddigonol sy'n cynnwys mynediad anghyfyngedig i'r uwch reolwyr a'r bwrdd.

Yn ychwanegol i'r hyfforddiant a dderbyniodd aelodau'r Pwyllgor (28-01-26) oedd yn rhoi ddiweddariad am eu cyfrifoldebau fel aelod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn sgil cyflwyno Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang a'r Nodyn Cymhwyso a ddaeth i rym yn y sector gyhoeddus ar 1 Ebrill, 2025, fe'u htgoffwyd bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor yn nodi cyfrifoldeb i fodloni bod y siarter yn cwmpasu trefniadau llywodraethu ar gyfer archwilio mewnol.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn a chymeradwyo cynnwys y Mandad a'r Siarter Archwilio Mewnol, i'w gymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau.**

## 10. STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A'R CYNLLUN ARCHWILIO BLYNYDDOL 2026/27

Cyflwynwyd, yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS), Strategaeth Archwilio Mewnol sydd yn fodd o sicrhau bod prif weithredwr archwilio mewnol yn datblygu a gweithredu'r strategaeth ar gyfer swyddogaethau archwilio mewnol sy'n cefnogi amcanion strategol a llwyddiant y sefydliad. Eglurwyd bod y Strategaeth Archwilio Mewnol wedi'i datblygu i alinio'r blaenoriaethau, yr amcanion a'r risgiau strategol allweddol sy'n wynebu'r Cyngor i gyd-fynd â gwaith y swyddogaeth archwilio fewnol dros y tair blynedd nesaf. Ystyriwyd y byddai hyn yn darparu cyfeiriad strategol i'r swyddogaeth archwilio fewnol ac yn cefnogi'r Cyngor yn ei ymagwedd at gyflawni ei amcanion allweddol ac yn dyrannu adnoddau archwilio mewnol yn briodol.

Ynghyd â'r Strategaeth, ac eto yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS), cyflwynwyd Cynllun Archwilio Mewnol sydd eto yn fodd o sicrhau bod prif weithredwr archwilio yn creu cynllun archwilio mewnol sy'n cefnogi cyflawni amcanion y sefydliad. Eglurwyd bod y Cynllun yn seiliedig ar asesiad o strategaethau, amcanion a chofrestr risg corfforaethol y Cyngor ac y bydd angen cynhyrchu adroddiad blynyddol, gan gynnwys y casgliad blynyddol ar lywodraethu, rheoli risg a rheolaethau, a pherfformiad archwilio mewnol yn erbyn ei amcanion. (Y Cod)

Nodwyd, er mwyn i archwilio mewnol barhau i fod yn berthnasol, rhaid addasu i ddisgwyliadau gan sicrhau ei fod yn parhau i gyd-fynd ag amcanion y Cyngor. Ategwyd bod y Strategaeth Archwilio Mewnol yn chwarae rôl bwysig wrth sicrhau cydbwysedd rhwng cost a gwerth, gan wneud cyfraniadau ystyrlon at lywodraethu cyffredinol, rheoli risg, a rheolaethau mewnol y Cyngor.

Diolchwyd am yr adroddiad

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn a chymeradwyo cynnwys y Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2026/2027, i'w cymeradwyo, a chefnogi Archwilio Mewnol yn ei weithrediadau.**

**11. ADRODDIAD AROLYGIAETHAU ESTYN AC AROLYGAETH GOFAL**

Yn dilyn cais gan y Cyngor i Estyn ac Arolygaeth Gofal Cymru gynnal arolwg ar y cyd i werthuso datblygiadau yn nhrefniadau diogelu Awdurdod Lleol Gwynedd, cyflwynwyd i'r Pwyllgor adroddiad yn amlygu canfyddiadau'r arolwg hwnnw. Eglurwyd, ers arestio cyn bennaeth Ysgol Friars, Neil Foden, yn 2023 ac yn ddiweddarach ei ganfod yn euog o droseddau rhyw yn Mai 2024, cyhoeddwyd adroddiad 'Cyfiawnder Trwy ein Dewrder' mewn ymateb i gyfleoedd a gollwyd i bryderon yn ymwneud â Foden a'i ryngweithio â phlant. Comisiynwyd yr adroddiad gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru ac adolygwyd ymarfer plant a phrosesau diogelu y Cyngor.

Cynhaliwyd arolwg arolygiaethau Estyn ac Arolygaeth Gofal Cymru yn Nhachwedd 2025 ac yn dilyn yr arolygiad, cyflwynwyd argymhellion i'r Cyngor. Nodwyd bod rhai o'r argymhellion eisoes yn cael sylw drwy'r cynllun ymateb i Adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder (a gyflwynwyd i'r Pwyllgor 15-01-26), a bod dau oedd heb eu cynnwys yn y cynllun yn cael eu hymgorffori ac yn derbyn ystyriaeth pellach. Ystyriwyd bod cael un cynllun gweithredu yn benderfyniad ymarferol. Tynnwyd sylw at un argymhelliad (4d) oedd yn ymwneud a threfniadau comisiynu a monitro cytundebau gwasanaeth oedd yn ymddangos yn eithriad, yn elfen strategol ac yn sefyll ar wahân, ond bod ymateb yn cael ei baratoi i'r argymhelliad hwnnw.

Diolchwyd am yr adroddiad

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol:

- Er derbyn bod polisïau yn cael eu hadolygu / cael eu creu o'r newydd, bod prosesau yn cael eu tynhau, a gwybodaeth yn cael ei rannu yn well, bod y rhain wedi mewn lle beth bynnag ac a'i felly mai diffyg dealltwriaeth, dilyniant, methiannau staff ac atebolrwydd a arweiniodd at y methiannau? Angen rhoi sylw i hyn.
- Ymchwiliad craffu 'Trefniadau Diogelu Mewn Ysgolion' - pam nad yw canfyddiadau'r ymchwiliad ar gael? Angen diweddariad
- Bod angen cynnal hyfforddiant i roi hyder i unigolion godi llais

Yng nghyd-destun gosod amserlen ar gyfer y gwaith, nodwyd pan fydd mesurau wedi eu diwallu neu wedi cyrraedd lefel o safon, yna'r gobaith yw erbyn Ebrill 2026 dylai nifer fod wedi eu cau i lawr. Er hynny, gyda rhai materion yn rhai diwylliannol a bod er enghraifft, creu polisïau newydd yn cymryd amser, yna anodd fyddai gosod amserlen gyda dyddiadau pendant.

Wrth holi am gryfhau hyfforddiant diogelu i holl staff a Llywodraethwyr gan sicrhau ei fod yn addas i bwrpas, nodwyd nad oedd yr hyfforddiant presennol yn ddigon arbenigol ac felly mewn ymateb comisiynwyd gwaith i sicrhau bod hyfforddiant diogelu ar draws gwasanaethau yn cael ei ddiweddaru a'i gwblhau gan staff. Adroddwyd bod 77% o'r gweithlu bellach wedi cwblhau'r hyfforddiant sydd yn gynnydd sylweddol ar y perfformiad blaenorol. Rhestrwyd y modiwlau mandadol sydd i'w cwblhau gan y gweithlu ac ategwyd bod modiwlau hyfforddiant perthnasol a gyfeiriwyd atynt gan y Bwrdd Diogelu ar gyfer cofnodi sgyrsiau wedi cael eu mabwysiadu ynghyd a sesiynau rhannu gwybodaeth am Fodel Finkelhor.

Yng nghyd-destun hyfforddiant i Lywodraethwyr ac os oedd hyfforddiant i'w grymuso gan sicrhau cymhwyster neu sgiliau priodol i'r swydd, nodwyd bod hyn yn cael ei ystyried, a cytunwyd bod angen cryfhau trefniadau llywodraethiant. Ategwyd bod clercod llywodraethu gyda sgiliau cynghori ac yn derbyn arweiniad ar sut i ddilyn trefn, ond bod angen edrych ar y

ddarpariaeth. Nodwyd bod bwriad rhoi strwythur mewn i sicrahu cysondeb yn y ddarpariaeth ac yn cael ei arwain gan y Gwasanaeth Addysg. Amlygwyd bod gan y Cyngor un swyddog cefnogi Llywodraethwyr cyflogedig ar hyn o bryd, ond bod bwriad cyflogi un arall. Nodwyd nad oedd hawl gan y Gwasaneth Addysg i blismona pwy sydd yn cael ei ethol yn Llywodraethwr a bod hyn yn dilyn trefn gyfansoddiadol.

Amlygwyd siom nad oedd cyfeiriad na chydnabyddiaeth gan Estyn ar fethiannau eu harolwg ar drefniadau diogelwch y Cyngor, Mehefin 2023 yn yr adroddiad. Nodwyd bod angen tryloywder, gan fod Estyn yn rhan o'r 'hanes'. Nododd y Pennaeth Addysg y byddai yn ysgrifennu at Estyn am esboniad / datganiad yn dilyn cynnal cyfarfod tymhorol gyda hwy. Er yn derbyn y sylw, adroddwyd nad oedd gan y Cyngor unrhyw reolaeth dros gynnwys yr adroddiad ond bod gwersi wedi eu dysgu o'r adolygiad ymarfer gyda'r Cyngor yn torri tir newydd drwy wahodd Estyn ac Arolygaeth Gofal Cymru i arolygu ac ymateb ar y cyd - roedd hyn yn cynnig arbenigedd Addysg a Gofal. Ategwyd bod yr arolwg wedi bod yn gam ymlaen ac yn newid cyfeiriad i'r ffordd y mae Awdurdodau yn cael eu harolygu.

Mewn ymateb i gwestiwn pam nad oedd cyfeiriad at yr Heddlu yn yr adroddiad o ystyried yr angen am gydweithio ac ymyrraeth gynnar, nodwyd nad oedd eglurhad pam nad oedd cyfeiriad at yr Heddlu yn yr adroddiad, ond adroddwyd bod cydweithio da rhwng y Gwasanaeth Addysg a'r Heddlu. Ategwyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal i ffurfioli'r hyn sydd yn cael ei weithredu gydag awgrym i ddefnyddio 'open access' fel bod gan y Cyngor fynediad agored, drwy Teams, at yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf, a'r Gwasanaeth Iechyd.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad**
- **Derbyn bod rhai o'r argymhellion (1,2,3,4,4b a 4c) yn cyfateb i gynlluniau gwaith sydd eisoes yng nghynllun ymateb adroddiad Cyfiawnder Trwy ein Dewrder**
- **Derbyn nad oedd dau o'r argymhellion (4a a 4d) yn y cynllun ymateb, ond eu bod bellach wedi eu cynnwys ac yn derbyn sylw priodol**
- **Er yn derbyn y bydd y mesurau sydd wedi eu diwallu neu wedi cyrraedd lefel o safon a bod y mater yn cael ei gau lawr, bod angen amserlen benodol, er derbyn mai anodd fyddai rhoi dyddiad pendant**
- **Gwerthfawrogi dilynant / adroddiad cynnydd ar yr ymatebion i'r argymhellion**
- **Siomedig eto nad oedd cydnabyddaieth gan Estyn ar fethianau eu harolwg ar drefniadau diogelwch y Cyngor, Mehefin 2023**

Nodyn: Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu Mewn Ysgolion – angen diweddariad

## 12. TREFNIADAU AR GYFER COMISIYNU GWASANAETHAU - CYNGOR GWYNEDD

Cyflwynwyd adroddiad gan y Rheolwr Caffael yn amlygu canlyniadau Archwilio Cymru i archwiliad cenedlaethol i geisio darganfod, wrth gomisiynu gwasanaethau os yw Cyngor Gwynedd, yn sefydlu trefniadau priodol i sicrahu gwerth am arian o ran y modd y mae'n defnyddio ei adnoddau. Adroddwyd bod yr archwiliad wedi ei gynnal yng Ngynwydd rhwng Rhagfyr 2024 a Chwefror 2025 ac ymhob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru. Yn dilyn yr archwiliad, cyflwynwyd dau argymhelliad i'r Cyngor a tynnwyd sylw at ffurflen ymateb y sefydliad i'r camau gweithredu perthnasol ynghyd ag amserlen a swyddog cyfrifol i gwblhau'r gwaith.

Diolchwyd am yr adroddiad

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sefyllfa Gwynedd, a'i bod ychydig yn wahanol i Gynghorau eraill oherwydd yr angen i sicrhau gwasanaeth Cymraeg a pha ystyriaeth sydd yn cael ei roi i ddylanwadu ar hyn, o ystyried efallai bod llai o ddarparwyr ar gael, nodwyd bod y Gymraeg

wedi cael ei adnabod fel un o flaenoriaethau caffael y gwasanaeth, ond bod yr adroddiad yma yn ystyried trefniadau comisiynu'r Cyngor cyn mynd allan i dendr.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn ymateb sefydliadol y Cyngor i'r argymhellion o fewn yr adroddiad**

**A1. Sefydlu trefniadau comisiynu cyson**
**A2. Ymgorffori trefniadau ar draws y Cyngor**

## 13. ADRODDIADAU ARCHWILIO CYMRU - LLETY DROS DRO, ARGYFWNG HIRDYMOR?

Cyflwynwyd adroddiad yn amlygu canlyniadau Archwilio Cymru i archwiliad cenedlaethol i geisio adnabod cyfleoedd i wella gwerth am arian a dulliau Cynghorau o ymateb i'r galw am lety dros dro. Adroddwyd bod yr archwiliad wedi ei gynnal yng Ngwynedd rhwng Medi 2024 ac Ebrill 2025 gyda dogfennau allweddol gan fod un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru wedi eu hadolygu. Yn dilyn yr archwiliad, cyflwynwyd tri argymhelliad i'r Cyngor a tynnwyd sylw at ffurflen ymateb y sefydliad i'r camau gweithredu perthnasol ynghyd ag amserlen a swyddog cyfrifol i gwblhau'r gwaith.

Diolchwyd am yr adroddiad oedd yn ymateb i sefyllfa heriol iawn ar draws y wlad.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- Bod angen diffiniad clir o'r gair 'digartref' a beth yw'r maen prawf
- Croesawu bod Gwynedd yn ceisio prynu a sicrhau gofod eu hunain i sicrhau lleoliadau addas a cheisio osgoi dibyniaeth ar safleoedd anaddas
- Bod angen sicrhau cyfathrebu clir gyda'r cyhoedd - cynnal cyfarfodydd cyhoeddus a chyflwyno cynlluniau gyda gwahoddiad i'r Aelod Lleol
- Bod angen annog proses haws i'r drefn cynllunio i allu defnyddio siopau gwag ar gyfer creu darpariaeth
- Yn croesawu'r gwaith da mae GISDA yn ei wneud ym Mhwllheli a Caernarfon
- Yn croesawu'r ddarpariaeth sydd yn cael ei brawf fesur ar gyfer y dyfodol – hyn yn hanfodol i gynlluniau dros dro
- Bod cadw pobl mewn gwely a brecwast yn gostus iawn i'r Cyngor ac felly angen gwell ffordd o ymateb i'r sefyllfa
- Bod angen torri'r stigma

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â cheisio defnyddio tai gwag y Sir ar gyfer y digartref, nodwyd bod elfennau cyfreithiol ynglŷn â pherchnogaeth eiddo, ond bod gwaith yn mynd yn ei flaen i geisio sefydlu peilot fyddai'n dod a pum tŷ i berchnogaeth y Cyngor drwy osod gorchymyn codi tal ar y perchennog (charging order) fel y cam olaf yn dilyn rhybuddion o gamau gorfodaeth. Ategwyd bod y Cyngor wedi ymgysylltu gyda chwmni arbenigol i gael cymorth ar y broses ac os bydd y peilot yn llwyddiannus, bydd y Cyngor yn edrych i ryddhau pum eiddo gwag arall i ddefnydd. Mewn ymateb i gwestiwn ategol ynglŷn â defnydd polisi ar gyfer y broses, nodwyd bod Polisi Adennill wedi ei fabwysiadau yn Nhachwedd 2024 oedd hefyd yn amlygu camau yn y broses.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r drefn o leoli pobl ddigartref ac ystyriaeth ar sut mae pobl yn cael eu lleoli, nodwyd er nad oes modd rhannu gwybodaeth bersonol am y digartref, bod ystyriaeth ofalus yn cael ei wneud i sicrhau bod y lleoliad yn un addas. Ategwyd y byddai'r gwasanaeth yn cydweithio yn agos gydag asiantaethau, ac yn ystyried y gymuned, cyn gwneud penderfyniad.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn Adroddiad Cenedlaethol Archwilio Cymru**

- **Derbyn ymateb sefydliadol y Cyngor i'r argymhellion;**
  - **A1 Gwerth am arian**
  - **A2 Cynllunio ar gyfer Atal**
  - **A3 Gweithio mewn Partneriaeth**
- **Croesawu'r gwaith da sydd yn cael ei wneud gan yr Uned Digartrefedd**
- **Cais am adroddiad yn rhoi diweddariad ar y gwaith peilot sydd yn cael ei wneud gan y Cyngor i ryddhau tai gwag yn ôl i ddefnydd**
- **Derbyn diweddariad ar gynnydd y cynllun ymateb sefydliadol**

**14. BLAEN RAGLEN Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO**

Cyflwynwyd blaen raglen o eitemau ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor hyd Mawrth 2027. Amlygwyd y byddai dyddiadau Pwyllgorau 2026/27 yn cael eu rhannu wedi i'r Calendr Pwyllgorau gael ei gymeradwyo yn y Cyngor Llawn ar y 5ed o Fawrth 2026.

**PENDERFYNWYD:**

- **Derbyn y rhaglen waith hyd Mawrth 2027**

Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 a daeth i ben am 17:00

__________________________

**CADEIRYDD**